

Fframwaith Cymwysterau Cyfieithwyr ar y Pryd

Mae'r Fframwaith Cymwysterau i Gyfieithwyr ar y Pryd yn ffurfio rhan o'r contractau Gwasanaethau Iaith a aeth yn fyw ar 5 Hydref 2026.

Mae'r fframwaith hwn o ganlyniad i adolygiad annibynnol i ofynion cymwysterau y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ). Mae'n sicrhau ein bod yn cyfateb y cymwyseddau gofynnol ar gyfer archebion MoJ i allu ein cyfieithwyr ar y pryd.

Lefel Broffesiynol 6 (RQF Lefel 6) – ar y lefel hon mae cyfieithydd ar y pryd yn cyfuno gwybodaeth **cyd-destun cyfreithiol arbenigol a theminoleg** gyda'r sgiliau proffesiynol **llafar ac ysgrifenedig** i ddarparu lefel uchel o **gyfieithu ar y pryd a chyfieithu olynol, cyfieithu wrth ddarllen a chyfieithu ysgrifenedig y ddwy ffordd** – i ac o'r Saesneg.

Lefel	Cymwysterau	Profiad	Nodiadau
Cyfieithydd ar y Pryd Proffesiynol Cymwys Cyfieithydd ar y pryd gyda chymhwyster addysgol neu broffesiynol arbenigol llawn mewn cyfieithu ar y pryd gan gynnwys Cyfieithwyr ar y pryd MoJ	Cymhwyster proffesiynol llawn: Diploma Cyfieithu ar y Pryd ar gyfer Gwasanaeth Cyhoeddus (DPSI) (y Gyfraith) (neu CCI, rhagflaenydd DPSI) Diploma Cyfieithu ar y Pryd yn yr Heddlu (DPI) Diploma Cyfieithu ar y Pryd Cymunedol (DCI) (gydag arbenigedd Heddlu/Llysoedd)	200 awr	Mae cyfieithwyr ar y pryd newydd gymhwyso neu'r sawl sydd wedi cymhwyso ond gyda llai na 200 awr o brofiad wedi eu cyfyngu i aseiniadau lefel cymunedol nes cyflawnir y trothwy profiad. Rhaid i gymwysterau cyfieithu ar y pryd y tu allan i'r DU fod o'r un safon cyfatebol â DPSI/DPI/DCI (RQF Lefel 6 cyfatebol gyda'r proffil sgiliau llawn: cyfieithu olynol/ar y pryd, cyfieithu wrth ddarllen a chyfieithu testun y ddwy ffordd, ac arbenigedd cyfiawnder) (e.e. UK ENIC (NARIC yn flaenorol) neu gyfieithiad ardystiedig). Trefniadau ar wahân yn berthnasol ar gyfer cyfieithwyr ar y pryd rhannol gymwys (gweler meini prawf lefel Cymunedol).
		Newydd gymhwyso neu gyda llai na 200 awr o brofiad	

etifeddol cymwys			
	Diploma Cyfieithu ar y Pryd ar gyfer Gwasanaeth Cyhoeddus (DPSI) (lechyd neu Lywodraeth Leol) Diploma Cyfieithu Cymunedol (heb arbenigedd Heddlu/Llysoedd)	200 awr (gyda 100 yn gysylltiedig â chyfiawnder)	Cyfieithwyr ar y pryd newydd gymhwyso neu'r sawl sydd wedi cymhwyso ond gyda llai na 200 awr o brofiad (100 yn gysylltiedig â chyfiawnder) wedi eu cyfyngu i aseiniadau lefel cymunedol nes cyflawnir y trothwy profiad.
		Newydd gymhwyso neu lai na 200 awr o brofiad neu dim profiad cysylltiedig â chyfiawnder	Rhaid i gymwysterau y tu allan i'r DU fod o safon cyfatebol wedi'i brofi (gweler uchod). Gellir ennill profiad cysylltiedig â chyfiawnder drwy gwblhau aseiniadau lefel cymunedol neu DPP cysylltiedig â chyfiawnder. Gellir cyfuno profiad a DPP i gyflawni'r trothwy profiad.
	Llwyddo (pass) neu uwch yn un o'r cymwysterau addysgol canlynol: BA/MA/Gradd Cyfieithu ar y Pryd (gellir ei gyfuno gyda chyfieithu), neu BA/MA/Gradd	200 awr (gyda 100 yn gysylltiedig â chyfiawnder) Newydd	Rhaid i raddau y tu allan i'r DU gael safon cyfatebol wedi'i brofi i RQF Lefel 6 (Baglor) neu Lefel 7 (Meistr) (e.e. UK ENIC (NARIC yn flaenorol) neu gyfieithu ardystiedig) a rhaid cynnwys Saesneg Mae cyfieithwyr ar y pryd newydd gymhwyso neu'r sawl sydd wedi cymhwyso ond gyda llai na 200 awr o brofiad (100 yn gysylltiedig â chyfiawnder) wedi eu cyfyngu i aseiniadau lefel

	Cyfieithu ar y Pryd mewn Cynhadledd	gymhwyso neu lai na 200 awr o brofiad neu dim profiad cysylltiedig â chyfiawnder	cymunedol nes cyflawnir y trothwy profiad. Gellir ennill profiad cysylltiedig â chyfiawnder drwy gwblhau aseiniadau lefel cymunedol neu DPP cysylltiedig â chyfiawnder. Gellir cyfuno profiad a DPP i gyflawni'r trothwy profiad.
	Cyfieithwyr ar y pryd a restrwyd ar Lefel Cymhleth/ Lefel Ysgrifenedig Cymhleth sy'n bodloni'r meini prawf uchod.	Gweler uchod	Mae trosglwyddo cofrestrriad yn amodol yn ychwanegol ar nad oes materion perfformiad sy'n weddill neu heb eu datrys.
Cyfieithydd ar y Pryd Profiadol Cyfieithydd ar y pryd cymwys mewn ieithoedd gyda phrofiad cyfieithu ar y pryd Neu	BA/MA/Gradd Ieithoedd Modern (yn cynnwys Graddau Iaith Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill)	400 awr (gyda 200 yn gysylltiedig â chyfiawnder)	Angen prawf (e.e. UK ENIC (NARIC yn flaenorol) neu gyfieithiad ardystiedig) o: • lefel iaith RQF Lefel 6 neu gyfatebol yn y ddwy iaith (Saesneg + iaith arall)¹ • sgiliau cyfieithu ar y pryd (olynol a chyfieithu ar y pryd, cyfieithu wrth weld, cyfieithu ysgrifenedig) yn y ddwy iaith. Sgiliau heb eu hardystio i gael eu hasesu yn erbyn y safon broffesiynol.
	IND, AIT (yn flaenorol IAA), UKVI, Tystysgrif Asiantaeth Ffiniau'r DU	400 awr (gyda 200 yn gysylltiedig â chyfiawnder)	

¹ Ar gyfer siaradwyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, derbynnir y canlynol fel prawf o Saesneg ar y lefel ofynnol: CEFR C1, Cambridge C1 Advanced, IELTS 7, Toefl 94-114, ESOL Lefel 2.

gydag achrediad y llywodraeth Neu Gyda phrofiad yn unig Neu Cyfieithwyr ar y pryd MoJ etifeddol cymwys	Profiad yn unig - dim ond ar gyfer ieithoedd ble nad yw cymhwyster ffurfiol ar gael	400 awr (gyda 200 yn gysylltiedig â chyfiawnder)	Angen prawf (e.e. UK ENIC (NARIC yn flaenorol) neu gyfieithiad ardystiedig) o: • lefel iaith RQF Lefel 6 neu gyfatebol yn y ddwy iaith (Saesneg + iaith arall)¹ • sgiliau cyfieithu ar y pryd (cyfieithu olynol a chyfieithu ar y pryd, cyfieithu wrth ddarllen, cyfieithu testun) yn y ddwy iaith. • cofnod o waith wedi'i ddogfennu o'r dair blynedd flaenorol sy'n bodloni gofynion profiad ynghyd â thri chanolwr proffesiynol. Sgiliau heb eu hardystio i gael eu hasesu yn erbyn y safon broffesiynol.
	Cyfieithwyr ar y pryd wedi eu rhestru'n flaenorol ar Lefel Cymhleth/ Lefel Ysgrifenedig Cymhleth sydd heb gymwysterau addysgol proffesiynol	400 awr wedi'i gwblhau o Aseiniadau Lefel Cymhleth neu Aseiniadau Ysgrifenedig Lefel Cymhleth MoJ neu brofiad cyfatebol cysylltiedig â chyfiawnder.	Angen prawf o lefel iaith a sgiliau cyfieithu ar y pryd fel ar gyfer "Profiad yn unig" uchod, ac: • yn amodol ar nad oes dim materion perfformiad yn weddill neu heb eu datrys • arsylwi/asesiad i'w gynnal o fewn 12 mis.

Cymunedol Lefel 3 (RQF Lefel 3) – ar y lefel hon mae gan gyfieithydd ar y pryd sgiliau llafar yn unig ac yn gallu darparu cyfieithu olynol sylfaenol a chyfieithu wrth ddarllen o'r Saesneg mewn sefyllfaoedd rhagweladwy, heb fod yn arbenigol. Nid yw cymwysterau ar y lefel hon fel arfer yn profi cyfieithu ar y pryd neu gyfieithu testun. Bydd gan gyfieithwyr ar y pryd unigol y sgiliau hyn a sgiliau eraill yn dibynnu ar brofiad (i'w asesu wrth gofrestru)

Lefel	Cymwysterau	Profiad	Nodiadau
Cyfieithydd ar y Pryd Cymunedol Cymwys Cyfieithydd ar y pryd gyda chymhwyster cyfieithu ar y pryd cymunedol llawn yn cynnwys cyfieithwyr ar y pryd etifeddol cymwys yn flaenorol wedi cofrestru gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder	RQF Lefel 3, 4 neu 5 Cyfieithu ar y Pryd Cymunedol neu gymhwyster achrededig y tu allan i'r DU	100 awr	Cyflwyniad gorfodol i gyfieithu ar y pryd cyfreithiol i gael ei gwblhau cyn adleoli. Cymwysterau y tu allan i'r DU angen tystiolaeth gyfatebol e.e. UK ENIC (NARIC yn flaenorol(neu gyfieithu ardystiedig).
	DPSI neu DPI rhannol gymwys (o leiaf uned cyfieithu olynol/cyfieithu ar y pryd + cyfieithu wrth ddarllen o'r Saesneg)	100 awr	Mae unedau unigol yn achrededig i RQF Lefel 6 (proffesiynol) ar gyfer y sgiliau perthnasol. Cyflwyniad gorfodol ychwanegol i gyfieithu ar y pryd cyfreithiol i'w gwblhau cyn adleoli ar gyfer rhannol ddeiliaid DPSI lechyd neu Llywodraeth Leol.
	Cyfieithwyr ar y pryd a restrwyd ar lefel Safonol sy'n bodloni'r meini prawf uchod.	Gweler uchod	Mae trosglwyddo cofrestriad yn amodol yn ychwanegol ar nad oes materion perfformiad sy'n weddill neu heb eu datrys.
Cyfieithydd ar y Pryd Cymunedol Profiadol	Profiad yn unig - dim ond ar gyfer ieithoedd ble nad yw cymhwyster ffurfiol ar gael	200 awr	Angen prawf o: lefel iaith ar o leiaf RQF Lefel 3 neu gyfatebol yn y ddwy iaith (Saesneg + iaith arall)

Cyfieithydd ar y pryd gyda sgiliau iaith ynghyd â phrofiad cyfieithu ar y pryd cymunedol Neu Cyfieithwyr ar y pryd MoJ etifeddol profiadol			• sgiliau cyfieithu ar y pryd (cyfieithu olynol, cyfieithu wrth ddarllen o'r Saesneg) • cofnod o waith wedi'i ddogfennu o'r dair blynedd flaenorol sy'n bodloni gofynion profiad ynghyd â dau ganolwr gwaith. Sgiliau heb eu hardystio i gael eu hasesu yn erbyn y safon lefel cymunedol.
	Cyfieithwyr ar y pryd a restrwyd ar lefel Safonol sydd heb y Cymwysterau uchod	200 awr o aseiniadau Safonol MoJ wedi eu cwblhau neu brofiad cyfatebol cysylltiedig â chyfiawnder.	Angen prawf o lefel iaith a sgiliau cyfieithu ar y pryd fel ar gyfer "Profiad yn unig" uchod, ac: • yn amodol ar nad oes dim materion perfformiad yn weddill neu heb eu datrys • arsylwi/asesiad i'w gynnal o fewn 12 mis.

- Mae holl gofrestriadau lefel broffesiynol angen prawf o gymhwysedd mewn tair sgil craidd ar RQF Lefel 6 neu gyfatebol: sgiliau iaith mewn dwy iaith, sgiliau a thechnegau cyfieithu ar y pryd, gwybodaeth am gyd-destun cyfreithiol a therminoleg.
- Gall cyfieithydd ar y pryd nad yw'n bodloni lefel Broffesiynol (rhannol gymwys neu ddiffyg profiad) fod wedi cofrestru ar lefel Gymunedol, yn amodol ar fodloni'r meini prawf, yn dibynnu ar gaffael cymwysterau llawn neu brofiad perthnasol. Mae cynnydd i lefel broffesiynol yn dibynnu ar gaffael a phrawf o holl sgiliau angenrheidiol.
- Gellir mesur gofynion profiad drwy achosion cyfieithu ar y pryd uniongyrchol neu drwy fesurau eraill a gymeradwywyd (DPP, cysgodi, mentora ac ati)

- Dylai pob cofrestriad gynnwys cofnod ar broffil y cyfieithydd o sgiliau unigol (cyfieithu olynol a/neu gyfieithu ar y pryd, cyfieithu wrth ddarllen i ac/neu o'r Saesneg; cyfieithu testun i ac/neu o'r Saesneg) er mwyn i'r rhain gyfateb i'r gofyniad sgiliau a restrwyd mewn archebion a neilltuwyd.
- Dylai tystiolaeth o brofiad fel arfer ddod o waith a gwblhawyd yn y dair blynedd flaenorol. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer yr effaith ar lefelau adleoli yn codi o Covid ac mae'n destun adolygiad.
- Er yn ddangosydd da o fwriad proffesiynol, nid yw aelodaeth o un o'r sefydliadau rheoleiddiol neu aelodaeth broffesiynol (CIOL, ITI, APCI neu NRPSI) yn ddigonol ar ben ei hun i fodloni meini prawf cofrestru ar gyfer lefel broffesiynol MoJ. Mae angen gwirio cymwysterau a phrofiad aelod yn erbyn y meini prawf perthnasol.
- Dylai pob cyfieithydd ar y pryd, wrth gofrestru, ddatgan unrhyw weithdrefnau disgyblu presennol neu sy'n weddill y maent yn ddarostyngedig iddynt ac unrhyw Gwynion yn eu herbyn sydd heb eu datrys.